

# Cardiau Cylch Bywyd


NFU CYMRU
Fferm Wyddoniaeth




Mae buwch wrywaidd, sef tarw, yn paru gyda buwch fenywaidd. Os nad yw'r fuwch fenywaidd wedi esgor (cael babi) o'r blaen, rydyn ni'n ei galw hi'n hether.



Mae gwartheg yn gyflo am tua'r un cyfnod ag y mae bodau dynol yn feichiog, tua 9 mis.




Pan mae babi'r fuwch yn cael ei eni, rydyn ni'n ei alw yn llo. Os yw'n ferch, mae hi'n hether, os yw'n fachgen mae'n darw.




Ar ôl 2 flynedd mae heffrod yn barod i gael lloi eu hunain.


NFU Cymru, Ty Amaeth,
Maes y Sioe Frenhinol, Llanelwedd, Powys, LD2 3TU.
www.nfu-cymru.org.uk




Mae dafad wrywaidd, sef hwrdd, yn paru gyda dafad fenywaidd. Yr enw am ddafad fenywaidd aeddfed yw mamog. Mae ffermwyr yn galw'r broses yma yn hyrdda.



Mae defaid yn gyfoen am tua 5 mis, ychydig dros hanner yr amser mae bodau dynol yn feichiog amdano.



Pan mae babi'r ddafad yn cael ei eni, rydyn ni'n ei alw yn oen. Enw'r broses o geni wyn yw wyna.




Ar ôl 7 – 18 mis mae defaid yn barod i gael wyn eu hunain.


NFU Cymru, Ty Amaeth,
Maes y Sioe Frenhinol, Llanelwedd, Powys, LD2 3TU.
www.nfu-cymru.org.uk




Mae pob iâr yn cychwyn bywyd fel ŵy. Mae'r iâr fenywaidd yn dodwy'r ŵy ac mae'r ceiliog yn ei ffrwythloni. Ydych chi'n gwybod bod yr wyau sydd yn eich cwpwrdd adref heb eu ffrwythloni, ac ni fyddent fyth yn medru tyfu yn gyw?



Mae'r cyw yn cymryd tua 21 diwrnod i ddeor (ddod allan) o'r ŵy. Yn ystod yr amser hyn, bydd yr ŵy yn cadw yn gynnes dan ei fam neu mewn deorydd. Mae'r cyw yn bwyta'r melyn ŵy maethlon ac yna yn pigo'i ffordd allan o'r plisgyn.



Pan mae newydd ddeor (ddod allan o'r ŵy) mae'r cyw yn edrych yn wlyb ond mae ei blu yn dod i edrych fel blew mân mewn dim amser. Wrth iddo dyfu yn hŷn, bydd y cyw yn tyfu plu go iawn.



Wedi tua 6 mis bydd yr iâr y dechrau cynhyrchu wyau. Ydych chi'n gwybod mae cywen yw'r enw am iâr ifanc?

NFU Cymru, Ty Amaeth,
Maes y Sioe Frenhinol, Llanelwedd, Powys, LD2 3TU.
www.nfu-cymru.org.uk

# Cardiau Cylch Bywyd

NFU CYMRU
Fferm Wyddoniaeth



Pan gawsoch chi eich geni, roeddech yn fabi. Roedd eich mam yn feichiog am tua 9 mis.



Cyn i chi ddod i'r ysgol roeddech yn blentyn bach, efallai bod gennych chi frawd neu chwaer iau sydd yn blentyn bach nawr?



Rydych chi nawr yn blentyn, efallai bod gennych chi frawd neu chwaer hŷn sydd yn laslanc neu'n laslances?



Yn y diwedd byddwch yn tyfu i fod yn oedolyn. Yna, efallai cewch chi fabi eich hunain?

NFU Cymru, Ty Amaeth,
Maes y Sioe Frenhinol, Llanelwedd, Powys, LD2 3TU.
www.nfu-cymru.org.uk